# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: 'Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru'. |
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. Craig ab Iago, Aelod Cabinet Tai ac Eiddo |
| **Swyddog perthnasol:** | Carys Fôn Williams, Pennaeth Tai ac Eiddo |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 20 Chwefror, 2024 |

**1. Penderfyniad a Geisir:**

1.1 Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo cynnwys yr ymateb drafft i ymgynghoriad y Llywodraeth ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru, a gyflwynir (Atodiad 1).

**2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi papur gwyn ar 'roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru', ac mae ymateb drafft wedi ei baratoi ar ran y Cyngor. Gofynnir i'r Cabinet roi ei sêl bendith i'r ymateb ddrafft oherwydd y sgil effeithiau posibl all y newidiadau arfaethedig eu cael ar adnoddau a chyllidebau'r Cyngor.

**3. Cyflwyniad a Rhesymeg**

**3.1 Cefndir/ Cyflwyniad**

3.2 Ar 10 Hydref 2023, lansiodd Llywodraeth Cymru yr ymgynghoriad cyhoeddus 'Papur Gwyn ar roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru'.

3.3 Mae'r Papur Gwyn yn cynnig newidiadau sylfaenol a sylweddol i'r maes Digartrefedd, a bwriad y Llywodraeth ydy cyflwyno Bil yn y Senedd yn 2024 a phasio deddfwriaeth newydd cyn diwedd y Senedd bresennol yn 2026.

3.4 Cynhaliwyd cyfnod ymgynghori ffurfiol gan y Llywodraeth rhwng 10 Hydref 2023 a 16 Ionawr 2024. Yn ystod y cyfnod hwnnw, ymgynghorwyd gydag adrannau mewnol yn cynnwys adrannau Oedolion, Iechyd a Llesiant, Plant a Chefnogi Teuluoedd, Tîm Arweinyddiaeth a Chefnogaeth Gorfforaethol er mwyn cyflwyno ymateb drafft i'r Llywodraeth. Gofynnir nawr am sêl bendith y Cabinet ar yr ymateb er mwyn i'r Cyngor gadarnhau'r ymateb terfynol i'r Llywodraeth.

**4. Bwriad yr Ymgynghoriad ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru**

4.1 Mae'r ymgynghoriad wedi ei rannu'n 5 rhan ac yn cael ei egluro fel a ganlyn gan y Llywodraeth:

**Rhan 1** – Diwygio’r ddeddfwriaeth graidd bresennol sy’n ymwneud â digartrefedd

a) Cynghorau i wneud Cynllun Tai Personol (sef dogfen sy'n nodi'r camau a gymerir i helpu i atal rhywun rhag mynd yn ddigartref neu helpu i sicrhau llety ar eu cyfer) ar gyfer pob person neu deulu digartref

b) Angen blaenoriaeth (sef categorïau penodol o bobl sy’n cael eu derbyn fel bod mewn angen blaenoriaeth am gymorth digartrefedd) – cael gwared ar y rheol yma a gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu cael help pan fyddan nhw yn ddigartref

c) Gwaredu’r rheol bwriadoldeb (Mae bod yn 'ddigartref yn fwriadol' yn golygu bod y digartrefedd, neu fygythiad o ddigartrefedd, wedi'i achosi gan rywbeth y gwnaeth yr ymgeisydd, neu fethu â'i wneud, yn fwriadol).

ch) Cysylltiad lleol (os nad oes gan ymgeisydd gysylltiad lleol â Gwynedd, gallwn benderfynu anfon yr ymgeisydd at gyngor arall lle mae ganddynt gysylltiad, ar yr amod y gellir disgwyl yn rhesymol iddynt ddychwelyd i'r ardal honno) – newid hyn fel bod cynghorau yn gallu bod yn fwy hyblyg. Er enghraifft, os ydy rhywun mewn perygl os ydyn nhw’n aros yn eu hardal eu hun.

d) Newid y ddeddf fel bod cynghorau yn gallu penderfynu rhoi’r gorau i weithio gyda phobl pan, er enghraifft pan maen nhw’n bygwth staff neu dal i fethu apwyntiadau.

**Rhan 2** – Rôl gwasanaeth cyhoeddus Cymru o ran atal digartrefedd

a) Angen mwy o wasanaethau cyhoeddus, fel gwasanaethau cymdeithasol, i weithio’n well gyda gwasanaethau tai i helpu rhywun gadw eu cartref. Mae hefyd angen i wasanaethau cyhoeddus ddeall y problemau sydd gan bobl a gwybod beth i’w wneud.

**Rhan 3** – Cynigion wedi'u targedu i atal digartrefedd i'r rhai yr effeithir arnynt yn anghymesur

a) plant a phobl ifanc - ni ddylid eu gosod mewn tai dros dro heb gefnogaeth.

b) angen i wasanaethau cymdeithasol ac awdurdodau lleol weithio gyda’i gilydd i helpu plant, pobl ifanc a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.

c) angen i wasanaethau iechyd a chynghorau gydweithio’n well i helpu pobl â phroblemau iechyd meddwl.

ch) Pan fydd rhywun yn gadael yr ysbyty, dylai’r ysbyty edrych i weld a oes ganddyn nhw gartref. Dylai’r cyngor helpu pobl sydd yn gallu bod yn ddigartref pan fyddan nhw yn gadael yr ysbyty.

d) Cam-drin domestig – eisiau helpu mwy o bobl yn y maes yma. Er enghraifft, pobl sy’n cael eu rheoli neu’n cael eu cam-drin mewn ffyrdd eraill.

dd) Angen i bob cyngor gadw rhestr o dai hygyrch.

e) Mae angen helpu i stopio pobl sydd yn dod allan o’r carchar rhag dod yn ddigartref.

f) Adolygu’r canllawiau – Llwybr Tai Cenedlaethol ar gyfer cyn-aelodau o’r lluoedd arfog a gwneud yn siŵr bod y rheolau’n cael eu dilyn ar draws pob awdurdod lleol.

**Rhan 4** - Mynediad i dai

a) Ni ddylai unrhyw un o dan 25 oed gael eu rhoi mewn cartrefi dros dro heb gefnogaeth.

b) Mae angen i Landlordiaid Cymdeithasol weithio gyda'i gilydd yn fwy i stopio digartrefedd. Er enghraifft, fe fyddai hyn yn golygu bod yn rhaid i gymdeithasau tai wneud mwy i ddod o hyd i gartrefi i bobl sy'n ddigartref.
c) Dylai cynghorau allu tynnu pobl sydd ddim angen cartref oddi ar restrau aros.

**Rhan 5** - Gweithredu

a) Ymestyn y strwythurau presennol a ddarperir drwy drefniadau craffu llywodraeth leol a rheoleiddio tai cymdeithasol er mwyn monitro'r ddarpariaeth ddigartrefedd a'r camau i weithredu'r diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig ynghyd â gwella trefniadau casglu data parhaus ym mhob rhan o'r sector tai a digartrefedd.

## 5. Ymateb i'r Papur Gwyn

5.1 Gwyddwn fod digartrefedd yn llawer mwy na mater tai felly mae adrannau eraill o'r Cyngor wedi cael cyfle i gyfrannu sylwadau, yn cynnwys adrannau Oedolion, Iechyd a Llesiant, Plant a Chefnogi Teuluoedd, Tîm Arweinyddiaeth a Chefnogaeth Gorfforaethol.

5.2 Yn gyffredinol, croesewir nifer o'r argymhellion sydd yn y Papur Gwyn, a hefyd y cyfeiriad polisi y mae'r Llywodraeth yn ei ddilyn trwy gyflwyno'r argymhellion hyn. Fodd bynnag credir bod angen cyflwyno sylwadau i'r Llywodraeth ar yr argymhellion hynny nad ydym yn cytuno â nhw, neu lle y rhagwelir y byddai gweithredu'r argymhellion yn creu pryderon i ni yng Ngwynedd. Ceir crynodeb o'r ymateb isod:

| | |
|---|---|
| **Cynnig newid diffiniad 'dan fygythiad o ddigartrefedd' o 56 niwrnod i 6 mis** | Rydym yn gefnogol i'r cynnig yma, ond yn codi pryder ar effaith posibl ar adnoddau i weithredu. Bydd cynyddu'r trothwy amser y bydd rhywun yn gymwys i dderbyn gwasanaeth o 56 niwrnod cyn dod yn ddigartref i 6 mis yn golygu llawer mwy o alw ar y gwasanaeth, yn benodol y ddyletswydd atal digartrefedd. Mae yna hefyd effaith posibl ar wasanaethau atal digartrefedd a ariennir ar hyn o bryd trwy'r Grant Cymorth Tai oherwydd y cynnydd yn yr amserlen lle y bydd angen i'r Cyngor weithredu. Bydd angen asesu effaith hyn yn ofalus. |
| **Cynnig i ddiddymu'r 'prawf bwriadoldeb** | Nid ydym yn cytuno gyda'r cynnig yma gan ei fod yn angenrheidiol mewn rhai amgylchiadau i ddod â dyletswyddau digartrefedd i ben, hebddo rydym yn wynebu risg o gadw achosion digartref yn agored yn hirach na'r angen sydd â goblygiadau o ran adnoddau staff a chostau. |
| **Cynnig i gadw'r prawf 'cysylltiad lleol' ond ehangu'r categorïau cymwys** | Rydym yn cytuno gyda chadw'r prawf cysylltiad lleol, ac yn anghytuno gyda'r bwriad i ehangu'r rhai fyddai'n gymwys oherwydd y canlyniadau tebygol ar wasanaethau ac adnoddau lleol. Rydym yn derbyn cyfeiriadau digartref niferus fel y mae hi o'r tu allan i Wynedd ond nid oes rheidrwydd i'w derbyn heblaw |

| | |
|---|---|
| | mewn rhai achosion penodol. Byddai ehangu'r categorïau cymwys yn golygu gwanhau ein gallu i beidio â derbyn rhai o'r cyfeiriadau hynny ar sail nad oes ganddynt gysylltiad lleol. Er enghraifft, mae posibilrwydd y byddai person digartref heb gyswllt lleol â Gwynedd sydd wedi gadael y carchar yn gallu datgan dymuniad i ddod i Wynedd i ailsefydlu a byddai dyletswydd arnom i'w letya.<br>Gall hyn gael effaith andwyol ar ein gallu i leihau'r nifer sy'n ddigartref yn y sir. Gwelir hyn hefyd fel risg o safbwynt adnoddau, capasiti a chostau cysylltiol, er enghraifft darparu llety argyfwng/dros dro. Bydd hyn yn arwain at fod gan Wynedd ddyletswydd i gartrefu mwy o bobl lle na fyddai hynny'n digwydd o dan y trefniadau presennol. |
| **Cynnig i gryfhau'r dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus i gydweithio ar ddigartrefedd** | Rydym yn cytuno bod hyn yn gyfeiriad positif gan ei fod y cydnabod nad mater tai yn unig ydy digartrefedd, a bod angen cydweithio agos rhwng sefydliadau cyhoeddus er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa. Fodd bynnag mae gennym bryder a fydd gan y sefydliadau cyhoeddus yma'r adnoddau priodol i gydweithio fel sydd angen mewn amser o wasgfa gyllidebol yn y sector cyhoeddus, ac ymhellach i hynny sut y gellir cymell cydweithio mewn achosion lle nad ydy hynny'n digwydd ar hyn o bryd. |
| **Cynigion byrdymor i wneud llety dros dro yn fwy addas** | Rydym yn cytuno gyda'r egwyddor gyffredinol o ddarparu llety o safon i'n cleientiaid. Fodd bynnag rydym yn datgan pryder gan fod canfod llety dros dro o safon yn her i ni ar hyn o bryd, ac os bydd angen codi safonau ymhellach mae'n bosibl iawn y bydd y cyflenwad yn lleihau. Mae yma hefyd y posibilrwydd y bydd angen darparu cymorth i fwy o bobl mewn llety dros dro, ynghyd â darparu cefnogaeth amgen i'r hyn sydd wedi ei ddarparu'n hanesyddol, gydag effaith amlwg ar adnoddau. |
| **Cynigion yn ymwneud â dyrannu tai cymdeithasol** | Cytuno yn gyffredinol gyda'r cynigion, ac yn benodol y cynnig i gyflwyno darpariaeth ddeddfwriaethol newydd fyddai'n golygu na all Cymdeithas Dai wrthod enwebiad person digartref gan y Cyngor ar gyfer eiddo cymdeithasol heblaw am mewn amgylchiadau penodedig. Byddai hyn yn arwain at gryfhau'r trefniadau sydd mewn lle ar hyn o bryd.<br><br>Nid ydym yn cytuno gyda'r cynnig i roi blaenoriaeth ychwanegol i bobl sy'n ddigartref dros grwpiau eraill o bobl sydd mewn angen tai brys e.e. teulu sydd |

| | |
|---|---|
| | angen eiddo hygyrch oherwydd anabledd plentyn. Fodd bynnag, buasem yn croesawu hwn fel pŵer i'w ddefnyddio (yn hytrach na dyletswydd), a hynny er mwyn rhoi hyblygrwydd a rheolaeth i ni yn lleol. |

5.3 Gan fod nifer o'r argymhellion yn debygol o gael effaith y ar lefelau adnodd sydd ei angen i gyflawni'r newidiadau, rydym wedi ymgynghori gyda'r Adran Gyllid, ac wedi derbyn sylwadau fel a ganlyn:

5.4 Mae'r bwriad o symud i ffwrdd o fod yn ymatebol i fod yn cynnig gwasanaeth ataliol yn egwyddor sydd yn ei le ers nifer o flynyddoedd ac o safbwynt ariannol rydym yn cydnabod yn llwyr fod hyn yn drywydd y bydd rhaid ei ddilyn os am gadw gwariant yn y maes o dan reolaeth.

5.5 Fodd bynnag, mae pryder gennym nad oes adnoddau digonol o fewn cyllidebau'r sector gyhoeddus yng Nghymru i ymdrin â'r heriau a'r pwysau ychwanegol sydd yn cael eu cynnig yn y ddogfen ymgynghorol.

5.6 Mae pryder nad oes gan y Llywodraeth amgyffred o faint llawer o'r costau ychwanegol. Er bod amcangyfrif costau (a hyd yn oed arbedion) yn cael eu cynnig mewn ambell le yn y ddogfen, mae tueddiad mewn astudiaethau fel hyn i gostau gael eu tan-amcanu, ac i arbedion gael eu gor-ddatgan. Ymhellach, mae risg y gall y costau ychwanegol syrthio arnom ni fel Cyngor, ac na fydd grantiau ar gael neu ddim yn ddigonol i gwrdd â'r costau hyn.

5.7 Mae asesiadau effaith ar nodweddion cydraddoldeb a'r Gymraeg, ac Asesiad Effaith rheoleiddio sydd ynghlwm â'r Papur Gwyn wedi'u paratoi gan y Llywodraeth, ac wedi'u cynnwys fel atodiad gyda'r Adroddiad hwn.

**6. Camau nesaf**

6.1 Derbyn sêl bendith y Cabinet ar yr ymateb i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn a gynhwysir yn Atodiad 1.

6.2 Unwaith derbynnir cymeradwyaeth y Cabinet, cadarnheir ymateb y Cyngor wrth y Llywodraeth.

**4. Sylwadau Swyddogion Statudol**

**4.1 Prif Swyddog Cyllid**

"Cefais gyfle i roi mewnbwn i ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad hwn, ac mae fy sylwadau wedi cael eu cynnwys ym mharagraffau 5.3 i 5.6 uchod."

## 4.2 Swyddog Monitro

“Dim sylwadau o ran priodoldeb.”

**Atodiadau:**

Atodiad 1 – Ymateb y Cyngor i’r Papur Gwyn
Atodiad 2 – Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru
Atodiad 3 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft Llywodraeth Cymru